# Cyfarfod Y Pwyllgor Deddfau

## Cofnodion (LEG(2)-06-07):

### Dyddiad y Cyfarfod: 27 Chwefror 2007
### Amser y Cyfarfod: 9:30am
### Lleoliad y Cyfarfod: Ystafell Bwyllgora 1, y Senedd

#### Aelodau’r Cynulliad yn Bresennol:

| **Aelod Cynulliad** | **Etholaeth** |
|---|---|
| Rosemary Butler | Gorllewin Casnewydd |
| Janice Gregory | Ogwr |
| Dai Lloyd | Gorllewin De Cymru |
| David Melding (Cadeirydd) | Canol De Cymru |
| Janet Ryder | Gogledd Cymru |
| Brynle Williams | Gogledd Cymru |

#### Swyddogion

| **Enw** | **Teitl Swydd** |
|---|---|
| Gwyn Griffiths | Cynghorydd Cyfreithiol |
| Joanest Jackson | Cynghorydd Cyfreithiol Cynorthwyol |

#### Gwasanaeth y Pwyllgorau

| **Enw** | **Teitl Swydd** |
|---|---|
| Olga Lewis | Clerc y Pwyllgor |
| Hasera Khan | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |

**Eitem 1: Ymddiheuriadau am absenoldeb: Jeff Cuthbert, Eleanor Burnham, Christine**

**Gwyther, Ann Jones**

## Eitem 2: Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol – LEG(2)-05-07

2.1 Cymeradwyodd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Chwefror 2007.

## Eitem 3: Adroddiad y Cadeirydd

3.1 Gan nad oedd unrhyw bwyntiau i'w hadrodd, awgrymodd y Cadeirydd y dylid symud ymlaen i drafod deddfwriaeth.

## Eitem 4: Gorchmynion y Cynulliad i'w Hystyried

4.1 LC1471 – Rheoliadau Tramgwyddau Amgylcheddol (Cosbau Penodedig) (Darpariaethau Amrywiol) (Cymru) 2007

Dywedodd y Cynghorydd Cyfreithiol Cynorthwyol wrth y Pwyllgor fod adroddiad diwygiedig wedi'i ddosbarthu oherwydd y wybodaeth munud olaf a dderbyniwyd gan y cyfreithiwr a'u drafftiodd i adlewyrchu'r pwyntiau a nodwyd gan y Cydbwyllgor ar Offerynnau Statudol a'r wybodaeth ychwanegol a dderbyniwyd gan DEFRA. Cytunodd yr Aelodau y dylid llunio'r adroddiad yn niwyg y drafft a gyflwynwyd i'r Pwyllgor gan y Cynghorwyr Cyfreithiol.

4.2 O ran yr Offerynnau Statudol canlynol cytunodd yr Aelodau y dylid llunio'r adroddiadau yn niwyg y drafftiau a gyflwynwyd i'r Pwyllgor gan y Cynghorwyr Cyfreithiol:

LC1465 – Rheoliadau Ymchwiliadau Lleol, Ymchwiliadau Cymwys a Gweithdrefnau Cymwys (Swm Dyddiol Safonol) (Cymru) 2007

LC1466 – Gorchymyn Traffig Ffyrdd (Ardal Barcio a Ganiateir ac Ardal Barcio Arbennig) (Sir Gwynedd) 2007

LC1467 – Rheoliadau Plant (Perfformiadau) (Diwygio) (Cymru) 2007

LC1468 – Gorchymyn Rheolaethau ar Gwn (Heb Fod yn Gymwys i Dir Dynodedig) (Cymru) 2007

LC1469 – Rheoliadau Gorchmynion Rheoli Cwn (Darpariaethau Amrywiol) (Cymru) 2007

LC1472 – Rheoliadau Safonau Ansawdd Aer (Cymru) 2007

## Eitem 5: Deddfwriaeth Rheol Sefydlog 29

5.1 O ran y ddeddfwriaeth a ganlyn cytunodd yr Aelodau y dylid llunio'r adroddiadau yn niwyg y drafftiau a gyflwynwyd i'r Pwyllgor gan y Cynghorwyr Cyfreithiol:

LC1470 – Penderfyniad ynghylch Cynlluniau Effeithlonrwydd Ynni Cartref (Categorïau Gwaith ac Uchafsymiau Grant) (Cymru) (Diwygio) 2007

### Camau i'w cymryd

Nid oedd unrhyw gamau i'w cymryd.

### Eitem 6: Unrhyw Fater Arall a Dyddiad y Cyfarfod Nesaf

6.1 Cynhelir cyfarfod nesaf y Pwyllgor ar 6 Mawrth 2007.